# Nodau’r gronfa

Nod y gronfa yma ydy cefnogi:



- Pobl sydd **heb lawer o adnoddau**. Mae hyn yn meddwl pobl sydd heb ddigon o arian i brynu’r pethau sydd eu hangen arnyn nhw. Neu bethau yr hoffen nhw eu cael.



- Pobl mewn **argyfwng**.

> **Argyfwng** ydy adeg pan fydd rhywbeth anodd iawn wedi digwydd i rywun ac mae arno angen help yn gyflym.



- Grwpiau a sefydliadau sy’n cefnogi pobl **hawdd eu niweidio**.

> Mae **hawdd eu niweidio** yn meddwl pobl sydd efallai angen help a chefnogaeth i gadw’n iach a diogel.

Yn y gorffennol mae'r gronfa hon wedi talu am bethau fel:



- Offer ar gyfer gweithgareddau sydd wedi cael eu trefnu gan grwpiau cymunedol. Ac elusennau sy'n gweithio gyda phobl **hawdd eu niweidio** sydd mewn angen.



- Eitemau pwysig ar gyfer y cartref. Fel dillad gwely, carpedi, peiriannau golchi a phethau eraill.




- Eitemau i leihau **tlodi bwyd a thanwydd**. Fel parseli bwyd, blancedi, poteli dŵr poeth, dillad thermol, ac atgyweiriadau i'r boiler.

**Tlodi bwyd a thanwydd** ydy pan na fedrwch chi fforddio prynu bwyd, neu gynhesu eich cartref.



- Atgyweiriadau ac ailaddurno y cartref.



- Clybiau amser cinio a gweithgareddau eraill sy'n dod â'r gymuned at ei gilydd. A helpu pobl sy'n cael profiad o **dlodi bwyd a thanwydd**.

# Faint rydych chi'n gallu gwneud cais amdano



Mae pobl a sefydliadau yn gallu gwneud cais am hyd at 1,000 o bunnoedd y flwyddyn.




Mae sefydliadau sy'n gwneud cais ar gyfer prosiect cymunedol yn gallu gwneud cais am arian am nifer o flynyddoedd. Mae hyn yn cael ei alw'n **gyllid amlflwyddyn**.

# Pwy sy'n gallu gwneud cais



- Grwpiau a sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl sy'n byw yn ardal Penarlâg.



- Pobl sy'n byw yn ardal Penarlâg.

